

## LLANFAIR YN NEUBWLL COMMUNITY COUNCIL

### Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00 y.h. Nos Fawrth 19 Gorffennaf 2022

Presennol: Cynghorydd Siân Enfys Jones – Cadeirydd

Cynghorwyr: Gwilym O. Jones, Gordon Owen, Lowri Owen, Sharon Parry Gareth Thomas a Dyfed Williams.

Hefyd yn bresennol: Ken Taylor - County Councillor

Mai Owen Clerc / Swyddog Ariannol Cyfrifol

1.	<b>Ymddiheuriadau</b> : Cyng. Celfyn Furlong, Lowri Owen, Einir Thomas a William Victor Owen.
2.	<b>Datganiad o ddiddordeb</b> – Dywedodd Cyng. Ken Taylor y byddai'n datgan diddordeb ym mhob cais cynllunio gan ei fod wedi'i benodi i Bwyllgor Cynllunio CSYM.
3.	<b>Cofnodion cyfarfodydd diwethaf</b> Derbyniwyd fod cofnodion 21 Mehefin 2022 a 28 Mehefin 2022 yn gywir - (Cynnig Cyng. Dyfed Williams, eilio Cyng. G. O. Jones)
4.	<b>Materion yn codi o'r cofnodion</b>
4.1	Cae Chwarae Playing Field: Roedd y clerc wedi prynu digon o lud i alluogi'r contractwr wneud treial ar atgyweirio darn o'r matiau diogelwch. Cytunwyd i ofyn i Mr G. Palmer wneud gwaith atgyweirio brys ar y wal gerrig cyn iddi gael ei thynnu i lawr ymhellach, ac i'r clerc brynu mainc picnic arall gan Wynnstay yn Llanfachraeth – amcan gôst £439.
4.2	Parc Solar Traffwll: Nodwyd y byddai'r Cyng. Celfyn Furlong yn cynrychioli'r Cyngor Cymuned yn Gwrandawriad 2 ar 27 Gorffennaf 2022 i drafod cymeriad a golwg ac amodau byw. Byddai Cyng. Gwilym Jones a K. Taylor yn mynychu fel cynrychiolwyr yn Gwrandawriad 3 ar 28 Gorffennaf 2022 lle byddai buddion cymunedol ac amodau perchnogaeth yn cael eu trafod.
4.3	Problemau parcio Cymyran: – roedd y mater hwn yn dal ar y gweill.
4.4	Unrhyw fater arall yn codi o'r cofnodion: Dywedodd Cyng. Gordon Owen fod y gwaith ar y giatiau ar lwybr 5 wedi ei gwblhau.
5.	<b>Materion plwyfol eraill - dim</b>
6.	<b>Penderfyniadau Cynllunio - dim</b>
7.	<b>Ceisiadau Cynllunio</b>
7.1	<b>D56/2022/3 Ty Mawr Farm, Y Fali</b>

**LLANFAIR YN NEUBWLL COMMUNITY COUNCIL**

---

	Cais llawn ar gyfer gosod mast telathrebu 15m steil polyn telegraff, antenâu, cypyrddau offer ar y ddaear, cyfansawdd wedi ei ffensio a datblygiad cysylltiedig – dim gwrthwynebiad.		
<b>8.</b>	<b>Materion Ariannol</b> Cyflwynwyd a chadarnhawyd yr adroddiad ariannol o 1.6. 2022 i 30.6.2022 ynghyd â Chysoniadau a Datganiadau Banc.  Cyfrif Cyfredol £23,979.52, Cyfrif Cadw £3,939.66		
<b>9.</b>	<b>Taliadau i'w gwneud:</b>		
	Cyflog Mehefin	£371.81	Archwiliad Cae Chwarae
	GMS Ground Maint.	£168	
	Cytunwyd i dalu'r rhain. Cytunwyd hefyd y byddai'r Clerc / SAC yn talu unrhyw anfonebau a dderbyniwyd mewn perthynas â gwariant a gytunwyd yn flaenorol.		
<b>10.</b>	<b>Gohebiaeth - cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:</b>		
10.1	Pwyllgor Safonau - Cynrychiolwyr y Cynghorau Tref a Chymuned ar y Pwyllgor		
10.2	Ymgynghoriad Treth Gyngor Tecach - 12 Gorffennaf i 4 Hydref 2022.		
10.3	Rhagrybudd: Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned - cyfarfod zoom 6.30 yh nos Iau, 8.9. 2022 ar Zoom		
10.4	Hyfforddiant Un Llais Cymru		
<b>11.</b>	<b>Adroddiadau Aelodau</b>		
11.1	Dywedodd Cyng. Gareth Thomas fod y wal gerrig ar yr A5 wrth rhif 1 Treifan ar fin syrthio. Byddai'r clerc yn hysbysu'r Cyngor Sir		
11.2	Cyfeiriodd y Cyng. Sharon Parry at y digwyddiadau a oedd yn cael eu hysbysebu ym Mhlas Llanfair gan ofyn a oedd adran trwyddedu CSYM yn ymwybodol ohonynt.  Gofynnodd hefyd a oedd bwriad i rannu'r hysbysfwrdd gafodd ei godi o flaen yr Eglwys yn Llanfihangel yn Nhowyn. Atgoffodd y clerc o gyfarfod y Cyngor i ofyn am gymeradwyaeth gan CSYM i godi eu hysbysfwrdd wrth Bryn Trewan.		
<b>12.</b>	<b>Cyfarfod Nesaf – 20 Medi 2022.</b>		